



12fed Gorffennaf 2016

AT RIENI DISGYBLION YSGOL BRYNREFAIL

Annwyl Riant

Ethol Dau Gynrychiolydd Rhieni ar Gorff Llywodraethu Ysgol Brynrefail

Mae angen dau gynrychiolydd rhieni i weithredu ar Gorff Llywodraethu **Ysgol Brynrefail** gyfnod o bedair blynedd o'r **1af o Fedi, 2016**. Gall unrhyw riant (neu bersonau sydd â Chyfrifoldeb Rhiant yn ôl Deddf Plant 1989), sydd â phlentyn yn yr ysgol, sefyll etholiad i weithredu ar y corff llywodraethu, a phleidleisio yn yr etholiad. Un bleidlais a roddir i riant, faint bynnag o blant sydd ganddo/i yn yr ysgol. Rhoddir pleidlais ar wahân i fam a thad a phersonau sydd â Chyfrifoldeb Rhiant yn ôl Deddf Plant 1989.

Etholir y cynrychiolydd fel a ganlyn:

1. Enwebiadau - Gwahoddir chi i anfon enwebiadau at y Pennaeth gan ddefnyddio'r ffurflen amgaeedig. Dylech sicrhau bod y person a enwebir gennych yn arwyddo ei fod/bod yn fodlon i'w enw/henw gael ei gyflwyno. Dylai'r enwebiad ddod i law'r Clerc y Corff Llywodraethu erbyn y **1af o Fedi 2016**.
2. Pleidleisio - Rhestrir yr holl enwebiadau ar y papur pleidleisio. Rhoddir papur pleidleisio, wedi'i rifo i bob riant ac fe'i hanfonir at y rhai sydd â hawl pleidleisio mewn amlen heb ei selio trwy law'r disgyblion, a dylid ei ddychwelyd yn yr amlen (wedi ei selio gan y riant), erbyn y dyddiad a nodir arno. Bydd yr etholiad yn gyfrinachol a'r pleidleisiau yn cael eu cyfrif ym mhresenoldeb person diduedd.
3. Cynrychiolydd – Bydd y Pennaeth yn gwneud trefniadau i hysbysu rhieni pwy yw'r cynrychiolydd a etholir a bydd ar y Corff Llywodraethu am bedair blynedd oni ymddiswydda yn y cyfamser.

Os dymuna unrhyw riant gael mwy o wybodaeth ynglŷn â swyddogaeth rhieni-lywodraethwyr, gellir cael manylion pellach gan Mrs Meleri Mair Humphreys, Swyddfa Addysg, Caernarfon, Gwynedd.

Diolchaf ymlaen llaw mewn rhagdybiaeth o'ch cydweithrediad.

Yn gywir

Mr Kevin W Owen
Clerc y Corff Llywodraethu